Ydi o'n deg?

Cysyniadau: **Cyfaddawdu, dod i benderfyniad, cyfiawnder, gwrthdrawiad, goddefgarwch, meddwl am eraill.**

Amcan: **Trafod y cysyniad o gyfaddawd fel dull o setlo problem a datblygu'r cysyniad o degwch.**

Cyfarpar: **Dim.**

Cyflwyniad:

● Ydi o'n deg? ydi thema'r gwasanaeth heddiw.
Dyma i chi dri digwyddiad:

● Mae Gwen a'i brawd Elgan wedi bod wrthi drwy'r bore yn adeiladu castell anferth o ddarnau lego. Maen nhw'n falch iawn o'u hymdrech ac mae'r ddau wedi bod wrthi'n ddiwyd, heb ffraeo o gwbl. Ond pwy sy'n dod heibio ond Esyllt eu chwaer fach. Mae hi newydd godi ar ôl bod yn cysgu am ddwy awr go dda. Mae hi'n cropian yn syth at y castell ac yn dymchwel y cwbl. Mae Gwen ac Elgan yn gwthio Esyllt i ffwrdd ac mae hithau'n sgrechian dros y lle. Mae Mam yn rhuthro o'r gegin, codi Esyllt sy'n dal i weiddi a sgrechian, ond chafodd hi ddim ffrae o gwbl.
● Ydi hyn yn deg? Beth fyddech chi wedi'i wneud?

● Mae'r plant sy'n bwyta brechdanau yn bwyta gyda'i gilydd ym mhen draw y ffreutur. Pan mae Anti Ceinwen, sy'n helpu dros awr ginio, yn dod heibio mae hi'n dechrau ffraeo Siôn, yr unig fachgen sydd heb orffen ei ginio. Mae Anti Ceinwen yn gorfodi Siôn i gasglu'r sbwriel sydd o dan y bwrdd. Mae Mr Williams, yr athro sydd ar ddyletswydd, yntau yn gorfodi Siôn i glirio'r crystiau a'r bagiau creision.
● Ydi hyn yn deg? Beth yw eich barn chi?

● Dwy chwaer ydi Lowri a Sioned, sydd bob amser yn cweryla. Roedd gan Lowri dri afal coch a Sioned bump eirinen. A dyma ddechrau dadlau. Mae Sioned eisiau rhoi un eirinen i Lowri a hithau roi un afal iddi hi. Ond mae Lowri yn dweud y dylai hi gael dwy eirinen gan fod yr afal yn fwy o lawer nag ydi'r eirinen. Mae Dad wedi cael llond bol ar y cecru a'r cweryla ac mae'n cymryd y ffrwythau i gyd oddi wrthyn nhw gan adael y ddwy heb ddim.

● Ydi hyn yn deg? Tybed oedd yna ffordd well i ddatrys y broblem?

Stori:

'Mi ydw i wedi gwneud y brechdanau caws a thomato'n barod, a'r creision, ac mae iogwrt a mefus, hefyd, yn dy focs bwyd. Mae'n rhaid i mi fynd rŵan. Ta ta!' a ffwrdd â mam Robin rhag ofn iddi fod yn hwyr yn cyrraedd ei gwaith.

Ond roedd Robin yn casáu brechdanau caws a thomato a'r creision caws a nionyn ac yn sicr roedd iogwrt yn troi arno. Roedd wedi dweud fwy nag unwaith wrth ei fam ond doedd hi ddim yn gwrando arno. Pan ddaeth ei dad i lawr o'r stafell ymolchi dyna lle roedd Robin yn cwyno a'r ateb gafodd gan ei dad oedd, 'Yli ngwas i, paid ti â chwyno. Mae dy fam yn gweithio'n galed yn paratoi cinio ar dy gyfer. Paid ti â bod mor anniolchgar a ffwrdd â ti i'r ysgol.'

Amser cinio dyna lle byddai'n eistedd wrth y bwrdd yn agor a chau ei focs bwyd tra oedd ei ffrindiau yn llowcio'r brechdanau fel gwylanod ar lan y môr. Doedd 'run o'i ffrindiau yn cymryd rhyw lawer o sylw o Robin a phan fyddai'r awr ginio drosodd byddai bocs bwyd Robin yn dal yn llawn.

Ar ei ffordd adref byddai'n taflu cynnwys ei focs bwyd i'r bin oedd ar ben draw'r stryd. Dyna oedd o'n wneud bob dydd. Un diwrnod daeth hen wreigan oedd yn byw yn y tŷ pen ato a gofyn iddo beth oedd yn ei wneud, 'Dim,' oedd ateb swta Robin.

'Dim, wir,' meddai'r hen wreigan. 'Mi ydw i wedi bod yn dy wylio'n rhoi rhywbeth yn y bin yna bob dydd.'

Dechreuodd Robin gochi at ei glustiau.

'Mi ydw i'n gwybod lle rwyt ti'n byw ac mi ydw i'n mynd i *ddweud wrth dy rieni.' A dyna ddigwyddodd. Bu cryn drafodaeth*

rhwng Robin a'i rieni a phenderfynodd ei fam ei bod am wrando mwy ar Robin a gwneud brechdanau ham a sôs coch iddo, creision halen a finegr, ac afal yn lle iogwrt.

Trafodaeth bellach:

● Tybed oedd mam Robin yn iawn yn paratoi brechdanau nad oedd yn eu hoffi?

● Oedd Robin yn gwneud y peth iawn yn taflu'r brechdanau i'r bin cyhoeddus?

● Beth am ymddygiad y wraig oedd yn byw yn y tŷ pen? Wnaeth hi'r peth iawn?

Dyfyniad o'r Beibl:

"Clywsoch fel y dywedwyd, 'Câr dy gymydog, a chasâ dy elyn.' Ond rwyf fi'n dweud wrthych: carwch eich gelynion." Mathew 5:43-44 BCND

Munud i feddwl:

Os ydych eisiau rhoi terfyn ar ffrwgwd a ffrae mae'n rhaid i chi ddysgu cyfaddawdu.

Emyn: Sori, Dduw: Canu Clod 377

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, os ydyn ni wedi gwneud camgymeriad helpa ni i ddweud 'sori'. Helpa ni i ddweud 'sori' ar ein hunion. Ac os ydi rhywun wedi dweud neu wneud rhywbeth cas gawn ni faddau iddyn nhw. Amen.